Therapi Iaith a Lleferydd i Blant
Children's Speech & Language Therapy
02921 836585

# Defnyddio Dymis

## Ceisiwch leihau'r defnydd o ddymis i gefnogi sgiliau cyfathrebu eich plentyn.

- Mewn babanod a phlant ifanc, gall dymis fod o werth fel rhywbeth sy'n rhoi cysur. Erbyn i blentyn fod yn 12 mis oed, yn lle bod yn gysur bydd wedi dod yn arferiad!
- Gall dymis fod yn ddefnyddiol i helpu babis i gysgu. Yn wahanol i fawd mae ganddyn nhw'r fantais eich bod yn gallu eu tynnu'n ôl yn haws.
- Gall defnyddio dymis ei gwneud hi'n anodd siarad - mae'n anodd gyda rhywbeth yn eich ceg! Mae llawer o synau angen i ni ddefnyddio blaen ein ceg (er enghraifft, 'p', 'b', 't', a synau 's'). Gall defnydd defnyddio dymis yn aml olygu bod eich plentyn yn ei chael hi'n anoddach i ddysgu sut mae dweud y synau hyn.
- Mae'n syniad da cyfyngu'r defnydd o ddymis i gyfnodau penodol o amser, e.e. amser gwely yn unig. Cadwch y dymi yn rhywle fel mai dim ond oedolyn sy'n gallu cael gafael arno.
- Wrth roi'r gorau i ddefnyddio dymis yn gyfan gwbl, mae'n ddoeth gwneud hyn drwy gynnwys eich plentyn. Os yw eich plentyn yn ddigon hen i ddeall, gwnewch sioe fawr o'i daflu i ffwrdd. Gofynnwch i'ch plentyn eich helpu i'w lapio, rhoi tâp selo arno a'i daflu gyda'ch gilydd yn y bin y tu allan. Taflwch ef yn agos at yr amser pan fydd y biniau'n cael eu casglu, felly mae siawns gyfyngedig y bydd angen e nôl! Os yn gwaredu'r dymi, gwnewch yn siŵr nad oes 'na rai eraill o gwmpas gartref. Peidiwch â chadw un mewn cwpwrdd rhag ofn!
- Efallai bydd plant yn ypsetio i ddechrau, ond bydd hyn yn pasio. Meddyliwch am fathau eraill o gysurwyr ar gyfer amser gwely a/neu degan arbennig i'w roi pan fyddan nhw wedi cynhyrfu.
- Gellir cysylltu tynnu'r dymi ag achlysur arbennig, e.e. pen-blwydd neu wyliau, pan ellir gwneud cynlluniau i ymddwyn 'wedi tyfu i fyny'.
- Cofiwch!
  - Gall dymis ei gwneud hi'n anodd siarad. Mynnwch bod eich plentyn yn tynnu'r dymi pan fydd eisiau siarad.
  - PEIDIWCH BYTH â rhoi dymi mewn unrhyw fwyd â siwgr gan y bydd hyn yn arwain at bydredd dannedd yn ddiweddarach.
  - Peidiwch â defnyddio tei gwddf na chordyn ar y dymi.



*Cardiff and Vale University Health Board is the operational name of Cardiff and Vale University Local Health Board.*
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.*